ColegauCymru CollegesWales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynhadledd Genedlaethol ar Gymwysterau

2 Chwefror 2012
Stadiwm Dinas Caerdydd

Croeso!

Mae'r gynhadledd hon, sydd wedi ei threfnu gan GolegauCymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn gobeithio cefnogi a chyfrannu at yr Adolygiad Cymwysterau swyddogol sydd ar waith.

Cynhadledd ryngweithiol ydyw. Fe fydd nifer ohonoch wedi cyfrannu at y fforwm trafod ar-lein eisoes. Mae'r fforwm ar fin cael ei ddiweddaru i ffocysu ar y cwestiynau a osodwyd gan yr Adolygiad Cymwysterau. Bydd y fforwm yn cau ar 24 Chwefror.
http://qualificationsconference.pbworks.com

Bydd ColegauCymru wedyn yn llunio adroddiad fydd yn cynnwys sylwadau a gynigiwyd i'r fforwm, yn y gynhadledd ac ar Twitter, a'i yrru at y tîm Arolygu

Ceir dau sesiwn o weithdai. Nodwch fod angen i chi gofrestru eich dewis ar gyfer gweithdai'r prynhawn (2.30yp). Mae'r teitlau a'r cwestiynau trafod yn y pecyn hwn.

Fe'ch anogir i rannu eich sylwadau drwy gydol heddiw ar sgrin y gynhadledd. Gan ddefnyddio eich dyfais symudol neu liniadur ewch at **www.twitter.com** a defnyddiwch **#QualsConf** wrth drydar.

National Conference on Qualifications

2 February 2012
Cardiff City Stadium

Welcome!

This conference, organised by ColegauCymru in partnership with the Welsh Government, aims to support and contribute to the official Review of Qualifications that is currently underway.

The conference is deliberately interactive. Many of you will have already contributed to the online forum. The online forum is about to be updated, focusing on the questions posed by the Review of Qualifications. The forum will close on Friday 24 February.
http://qualificationsconference.pbworks.com

ColegauCymru will then compile a report of submissions to the forum, the conference and the tweets and submit to the Review team.

There are two workshop sessions today. Please note that you need to register your preferred workshop for the second session (2.30pm). Titles and questions for discussion are contained in this pack.

You are encouraged to share your views throughout today on the conference screen. Using your mobile device or laptop, go to **www.twitter.com** and use **#QualsConf** in all your tweets.

Rhaglen

09:45	**Ymrestru a the/coffi**
10:30	**Sylwadau agoriadol** *Mark Jones,Uwch-Ddirprwy Gadeirydd ColegauCymru*
10:40	**Adolygiad Cymwysterau: yr her** *Jeff Cuthbert, Dirprwy Weinidog dros Sgiliau*
11:00	**Adolygiad Lloegr o Gymwysterau Galwedigaethol** *Yr Athro Alison Wolf*
12:00	**Gweithdai:** adnabod prif bwyntiau polisi
13:00	**Cinio**
14:00	**Adolygiad Cymwysterau: cwestiynau allweddol** *Huw Evans OBE, Cadeirydd yr Adolygiad*
14:30	**Gweithdai: ymateb i'r cwestiynau allweddol**
15:45	**Crynhoi a'r ffordd ymlaen** *Dr John Graystone, Prif Weithredwr ColegauCymru*
16:00	**Diwedd**

Programme

Registration and tea/coffee
Opening remarks *Mark Jones, Senior Vice-Chair, ColegauCymru*
Review of Qualifications: the challenge *Jeff Cuthbert, Deputy Minister for Skills*
Review of Vocational Qualifications in England *Professor Alison Wolf*
Workshops: identify the key policy points
Lunch
Review of Qualifications: key questions *Huw Evans OBE, Chair of the Review*
Workshops: responding to the key questions
Summary and next steps *Dr John Graystone, Chief Executive, ColegauCymru*
Close

Gweithdai'r bore (pob gweithdy'r un fath)

1. I ba raddau y mae casgliadau'r Athro Wolf yn berthnasol i Gymru, a pha agweddau ar yr argymhellion a fyddai'n fuddiol neu'n niweidiol yng Nghymru yn eich barn chi?
2. Beth yw'r pethau gorau a'r pethau gwaethaf am ein cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru (o ran cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol)?
3. Beth yw'r cyfleoedd a'r risgiau i Gymru yn sgîl gwahaniaethu o ran cymwysterau yng Nghymru a Lloegr?
4. Symleiddio - a ddylai fod llai o gymwysterau? Os felly, pa rai y dylid cael gwared arnynt?
5. Ansawdd a thrylwyredd - a oes diffyg hygrededd i rai cymwysterau ac os felly sut y gellid mynd i'r afael â hyn gan osgoi'r risg o ddieithrio pobl ifanc.
6. A yw'r farchnad gymwysterau, gyda llawer o sefydliadau yn dyfarnu, yn arwain at safonau gwell neu rai gwaeth?

Morning workshop (identical workshops)

1. To what extent are Professor Wolf's conclusions applicable to Wales, and which aspects of the recommendations do you think would be beneficial or harmful in Wales?
2. What are the best and worst things about our qualifications for 14-19 year olds in Wales (in relation to both general and vocational qualifications)?
3. What are the opportunities and risks for Wales associated with divergence of qualifications in Wales and England?
4. Simplification – should there be fewer qualifications? If so, which should go?
5. Quality and rigour – do some qualifications lack credibility and if so how can this be tackled without risking loss of engagement of young people?
6. Does the marketplace of qualifications, with many awarding organisations, drive standards up or down?

Gweithdy prynhawn 1/5 (dewiswch un)

Perthnasedd

- Beth sy'n gwneud cymhwyster yn berthnasol ac yn werthfawr, yn eich barn chi?
- Sut y gellid gwella perthnasedd a gwerth cymwysterau, yn eich barn chi?
- A yw'r cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 14-19 oed ar hyn o bryd yn diwallu anghenion yr economi yng Nghymru yn gyffredinol, yn eich barn chi?
- A yw'r cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 14-19 oed ar hyn o bryd yn diwallu anghenion ein pobl ifanc yng Nghymru yn gyffredinol, yn eich barn chi?

Afternoon workshop 1/5 (choose one)

Relevance

- What do you think makes a qualification relevant and valued?
- How do you think the relevance and value of qualifications could be improved?
- Do you think the qualifications that are currently available to learners aged 14-19 generally meet the needs of the Welsh economy?
- Do you think the qualifications that are currently available to learners aged 14-19 generally meet the needs of our young people?

Gweithdy prynhawn 2/5 (dewiswch un)

Mesur Perfformiad

A ydym yn defnyddio'r Mesurau cywir yng Nghymru?

- A ddylem gadw'r mesurau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gyflwyno adroddiadau ar berfformiad yng Nghymru? Os na, pa rai y dylid cael gwared arnynt?
- A oes unrhyw ffactorau eraill y dylem eu hystyried wrth gyflwyno adroddiadau ar berfformiad? Os oes, beth ydynt?

Cydberthynas â Lloegr

- Yn achos cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr, e.e. TGAU a Safon Uwch, pa mor bwysig ydyw i gael ffordd debyg o fesur perfformiad yn y ddwy wlad? Pam?

Gwerth y cyfraniad i fesurau perfformiad

- A ddylid rhoi terfyn ar werth cyfraniad cymwysterau sydd â llawer mwy o oriau dysgu dan arweiniad na TGAU islaw'r lefelau cyfredol? Os felly, beth y dylai terfyn uchaf y cyfraniad fod?

Afternoon workshop 2/5 (choose one)

Measuring Performance

Do we have the right Measures in Wales?

- Should we retain all of the measures currently used to report on performance in Wales? If not, which ones could be removed?
- Are there any other factors we should take into account when reporting on performance? If so, what are they?

Relationship with England

- For qualifications available in Wales and England, e.g. GCSE and A Level, how important is it to have a similar means of measuring performance across the two countries? Why?

Contribution value to performance measures

- Should the contribution value of qualifications with significantly greater guided learning hours (GLH) than GCSE be capped below current levels? If so, what should the maximum contribution be?

Gweithdy prynhawn 3/5 (dewiswch un)

Afternoon workshop 3/5 (choose one)

Sgiliau Hanfodol

- A yw Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach yn addas at y diben?
- Ar eu ffurf bresennol, a yw Sgiliau Hanfodol Cymru yn gywir o ran:
  - Cynnwys
  - Asesiad
- Ar eu ffurf bresennol, a yw Sgiliau Allweddol Ehangach yn gywir o ran:
  - Cynnwys
  - Asesiad
- Beth yw'r ffordd fwyaf priodol a pherthnasol o asesu Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach, yn eich barn chi?
- A ddylid cynnwys sgiliau megis Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu mewn cymwysterau cyffredinol, e.e. TGAU Mathemateg / Saesneg?

Essential Skills

- Are Essential Skills Wales and Wider Key Skills currently fit for purpose?
- In their current form, do Essential Skills Wales contain the right:
  - Content
  - Assessment
- In their current form, do Wider Key Skills contain the right:
  - Content
  - Assessment
- What do you feel is the most appropriate and relevant form of assessment for Essential Skills Wales and Wider Key Skills?
- Should skills such as Application of Number and Communication be incorporated into general qualifications, e.g. GCSE Maths / English?

Gweithdy prynhawn 4/5 (dewiswch un)

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

- Beth yw eich barn ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol?
- A ydych yn gyfarwydd â'r cymhwyster? Pa fath o wybodaeth am Fagloriaeth Cymru yr hoffech ei chael?
- A yw cynnwys gofynion Craidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn briodol?
- Sut y gellid gwella'r gofynion Craidd, heb roi mwy o faich ar athrawon a dysgwyr?
- Pe baech yn gallu newid un peth am gynnwys Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, beth y byddech yn ei newid - a pham?

Afternoon workshop 4/5 (choose one)

Welsh Baccalaureate

- What are your views on the Welsh Baccalaureate Qualification in general?
- Are you familiar with the qualification? What sort of information about the Welsh Baccalaureate would you wish to have available to you?
- Is the content of the Core of the Welsh Baccalaureate Qualification appropriate?
- How might the Core be improved, without increasing burdens for teachers and learners?
- If you could change one thing about the content of Welsh Baccalaureate Qualification, what would that be – and why?

Gweithdy prynhawn 5/5 (dewiswch un)

Asesiad

- A ddylai dysgwyr fod yn gallu cael eu hasesu ar gyfer unedau TGAU wrth i'r cwrs fynd rhagddo, neu a ddylid cynnal pob asesiad ar ddiwedd y cwrs?
- A ddylai fod yn ofynnol i bob cymhwyster sy'n cyfrannu at ddata perfformiad ysgol neu goleg gynnwys elfen asesu allanol? Os felly, pam?
- A oes unrhyw gymwysterau penodol rydych yn chwilio amdanynt, fel arwydd bod ymgeisydd yn gallu ysgrifennu i safon resymol?
- A ddylid defnyddio TGAU Saesneg a/neu Gymraeg fel y prif gymhwyster ar gyfer asesu sgiliau ysgrifenedig?
- Pa mor bwysig yw cael yr un cymwysterau yng Nghymru a Lloegr i bobl ifanc 16 oed?

Afternoon workshop 5/5 (choose one)

Assessment

- Should learners be able to take units of their GCSEs throughout their course or should all assessment take place at the end of the course?
- Should all qualifications that contribute to school or college performance data be required to include an element of external assessment? If so, why?
- Are there any particular qualifications that you look for, as an indicator that a candidate can write at a reasonable standard?
- Should GCSE English and/or Welsh be the main qualification for assessing writing skills?
- How important is it to have the same qualifications at 16 in Wales as in England?

Bywgraffiadau Siaradwyr y Gynhadledd

Mark Jones

Mae Mark Jones wedi bod yn Bennaeth ar Goleg Penybont am chwe blynedd.

Mae Mark wedi cael ei benodi i swyddi uwch reoli mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ac mewn diwydiant. Mae e'n athro cymwysedig (TAR) ac yn Gyfrifydd Siartredig (ACA), gyda BSc mewn Mathemateg ac MA mewn Rheolaeth Addysg.

Ar hyn o bryd, mae e'n aelod o fwrdd ColegauCymru a fe ydy Uwch-Ddirprwy Gadeirydd y Bwrdd. Mae e hefyd yn cadeirio Grŵp Penaethiaid y De Ddwyrain a hefyd Consortiwm Pwrcasu Addysg Bellach Cymru.

Biographies of Conference Speakers

Mark Jones

Mark Jones has been Principal of Bridgend College for 6 years.

Mark has held senior management positions in both FE and HE institutions and industry. He is a qualified teacher (PGCE) and a Chartered Accountant (ACA), with a BSc in Mathematics and an MA in Education Management.

Currently, he is a board member and Senior Vice-Chair of ColegauCymru. He also chairs the South East Wales Principals' Group and the Welsh Further Education Purchasing Consortium.

Bywgraffiadau Siaradwyr y Gynhadledd

Jeff Cuthbert

Magwyd Jeff yn Ne Cymru a bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd. Mae ganddo radd mewn Peirianneg Mwyngloddio a bu'n Llywydd ar Undeb Myfyrwyr Coleg Prifysgol Caerdydd rhwng 1974 a 1975. Bellach, mae'n aelod gweithgar o'r undeb llafur Unite.

Cyn cael ei ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2003, bu Jeff yn gweithio i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru fel Pennaeth yr Uned Caffaeliad i Ddiwydiant. Yr Uned hon oedd yn gyfrifol am ddatblygu cymwysterau a safonau galwedigaethol a diwydiannol.

Jeff a sefydlodd ac a gadeiriodd y Grŵp Trawsbleidiol ar yr Amgylchedd Adeiledig, y Grŵp Trawsbleidiol ar Fyw'n Iach, a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes. Cyd-sefydlodd a chyd-gadeiriodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai hefyd. Yn y Cynulliad diwethaf, roedd Jeff yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac yn aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, y Pwyllgor Menter a Dysgu a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Mae Jeff yn ymwneud â nifer o brosiectau lleol yng Nghaerffili; yn fwyaf nodedig, ef yw Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Glöwyr Caerffili.
Ar ôl ei ailethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2011, penodwyd Jeff Cuthbert yn Ddirprwy Weinidog Sgiliau

Biographies of Conference Speakers

Jeff Cuthbert

Jeff grew up in South Wales and was educated at University College Cardiff. He has a degree in mining engineering and was President of University College Cardiff Students Union from 1974-1975. He is currently an active member of the Unite trade union.

Prior to entering the National Assembly in 2003 Jeff was employed by the Welsh Joint Education Committee as the Head of the Asset to Industry Unit. This unit worked on the development of vocational and industrial qualifications and standards.

Jeff founded and chaired the Cross-Party Built Environment Group, the Cross-Party Healthy Living Group and the Cross Party Group on Diabetes. He co-founded and co-chaired the Cross-Party Beer and Pub Group. In the last Assembly Jeff Chaired the Committee on Standards of Conduct and also sat on the European and External Affairs Committee, the Enterprise and Learning Committee and Public Accounts Committee.

Jeff is involved with a number of local projects in Caerphilly, most notably he is the Chair of the Caerphilly Miners Community Centre Management Committee.

Following re-election to the National Assembly for Wales in May 2011, Jeff Cuthbert was appointed Deputy Minister for Skills.

Bywgraffiadau Siaradwyr y Gynhadledd

Yr Athro Alison Wolf

Alison Wolf yw'r Athro Syr Roy Griffiths o Reolaeth Sector Cyhoeddus yng Ngholeg y Brenin, Llundain, lle mae'n cyfarwyddo'r radd MSc mewn Polisi a Rheolaeth Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ym mis Mawrth 2011 cwblhaodd adolygiad swyddogol o addysg alwedigaethol (14-19 oed) i Ysgrifennydd Gwladol Addysg Lloegr, Michael Gove. Derbyniodd y llywodraeth argymhellion yr adolygiad yn llawn. Ar hyn o bryd mae'n cynghori'r llywodraeth ar eu gweithredu.

Mae Alison Wolf yn athro gwadd yn y Sefydliad Addysg, Llundain, ac yn aelod academaidd o Gyngor Coleg y Brenin, Llundain. Mae wedi cynghori llawer o sefydliadau llywodraethol a byrddau arholi/cyrff dyfarnu yma ac mewn gwledydd eraill, ac wedi gweithio i sefydliad polisi llywodraeth yr Unol Daleithiau a melinau trafod yn yr Unol Daleithiau.

Mae ei chyhoeddiadau'n cynnwys Does Education Matter? Myths about education and economic growth. (Penguin 2002); An Adult Approach to Further Education (IEA 2009); (gyda Karen Evans) Improving skills at work (Routledge 2011). Mae'n cyfrannu'n aml at y papurau newyddion o ansawdd ac mae'n gyflwynydd i raglen Analysis ar BBC Radio 4.

Biographies of Conference Speakers

Professor Alison Wolf

Alison Wolf is the Sir Roy Griffiths Professor of Public Sector Management at King's College London, where she directs the MSc in Public Services Policy and Management.

In March 2011 she completed an official review of vocational education (age 14-19) for England's Secretary of State for Education, Michael Gove, whose recommendations were accepted in full by the government. She is currently advising the government on implementation.

Alison Wolf is a visiting professor at the Institute of Education, London, and an academic member of King's College London Council. She has advised many governmental organisations and examination boards/awarding bodies here and in other countries; and has worked for a US government policy institute and US think tanks.

Publications include Does Education Matter? Myths about education and economic growth. (Penguin 2002); An Adult Approach to Further Education (IEA 2009); (with Karen Evans) Improving skills at work (Routledge 2011). She is a frequent contributor to the broadsheet press, and a presenter for BBC Radio 4 Analysis.

Bywgraffiadau Siaradwyr y Gynhadledd

Huw Evans OBE

Yn ddiweddar ymddeolodd Huw Evans, Cadeirydd yr Adolygiad o Gymwysterau 14-19 yng Nghymru, o'i swydd fel Pennaeth Coleg Llandrillo Cymru ar ôl llywio'r Coleg yn llwyddiannus trwy lawer o newidiadau dros gyfnod o 22 blynedd.

Mae Huw yn aelod o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ac yn y gorffennol cadeiriodd fforwm (ColegauCymru erbyn hyn). Mae wedi cymryd rhan mewn adolygiadau o addysg bellach ac addysg uwch, ac am gyfnod bu'n gadeirydd Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd Cymdeithas y Colegau ac yn aelod o Fwrdd UFI.

Yn 2002, cafodd OBE am wasanaethau i Addysg Bellach ac yn 2011 cyflwynwyd iddo Wobr Cyflawniad Oes gan y TES.

Mae'n siarad Cymraeg ac yn byw yn y Gogledd, lle mae'n mwynhau ei ymddeoliad ar hyn o bryd, ond yn dal i gymryd rhan weithgar ym maes polisi addysg yng Nghymru.

Biographies of Conference Speakers

Huw Evans OBE

Huw Evans, Chair of the Review of Qualifications in Wales 14-19, recently retired from his position as Principal of Coleg Llandrillo Cymru after successfully steering the College through many changes over a period of 22 years.

Huw is a member of the Minister's Advisory Group and has previously chaired fforwm (now ColegauCymru). He has been involved in reviews of both further and higher education and for a period chaired the AoC Curriculum and Quality Committee and was a Board member of UFI.

In 2002, he received his OBE for services to Further Education and in 2011 was presented with a Lifetime Achievement Award by the TES.

He is a Welsh speaker and is resident in North Wales where he is currently enjoying his retirement whilst still retaining an active role in educational policy within Wales.

Bywgraffiadau Siaradwyr y Gynhadledd

Dr John Graystone

Penodwyd John Graystone yn Brif Weithredwr ColegauCymru ym mis Gorffennaf 2001 – elusen addysgol sy'n cynrychioli pob un o'r 20 coleg addysg bellach yng Nghymru.

Mae John wedi addysgu mewn ysgolion ac ym meysydd addysg bellach ac addysg uwch. Bu'n ymchwilydd i'r Cyngor Addysg Iechyd ac yn ddiweddarach yn ymchwilydd cysylltiol ym Mhrifysgol Bryste, gan weithio mewn tîm oedd yn gwerthuso dau brosiect mawr a ariannwyd gan y llywodraeth. Treuliodd chwe blynedd a hanner ym maes datblygu polisi addysg gyda Chyngres yr Undebau Llafur a Chymdeithas yr Awdurdodau Metropolitanaidd.

Bu'n gweithio am bron naw mlynedd yng Ngholeg y Staff, y ganolfan datblygu rheolwyr i addysg bellach ac uwch. Yno daeth yn aelod o'r tîm uwch reolwyr â chyfrifoldeb am hyfforddiant wedi'i gomisiynu a gwaith tramor.
Daeth yn Brif Weithredwr Cymdeithas y Colegau yn Rhanbarth y Dwyrain yn 1995, ac yn ddiweddarach daeth yn Gyfarwyddwr Rhanbarthol cyntaf Cymdeithas y Colegau, De Orllewin Lloegr.

Bu John yn un o'r tîm a ysgrifennodd y deunyddiau hyfforddi llywodraethwyr a gynhyrchwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, fel yr oedd ar y pryd. Mae wedi cyhoeddi'n helaeth ym maes addysg bellach ar amrywiaeth o bynciau a chafodd ei ddoethuriaeth am ymchwil i lywodraethu colegau addysg bellach yn y Deyrnas Unedig.

Biographies of Conference Speakers

Dr John Graystone

John Graystone was appointed Chief Executive of ColegauCymru/CollegesWales in July 2001 - an educational charity which represents all 20 FE colleges in Wales.

John has taught in schools and in further and higher education. He was a researcher for the Health Education Council and later a research associate at the University of Bristol working in a team carrying out the evaluation of two major government funded projects. He spent six and a half years in education policy development at the Trades Union Congress and the Association of Metropolitan Authorities.

He worked for almost nine years at The Staff College, the management development centre for further and higher education, where he became a member of the senior management team with responsibility for commissioned training and overseas work. He became Chief Executive of the Association of Colleges in the Eastern Region in 1995, and later became the first Regional Director for the Association of Colleges, South West.

John was one of the team that wrote the governor training materials produced by the then Further Education Funding Council for Wales. He has published widely in further education on a range of subjects and received his doctorate for research into the governance of FE colleges in the UK.